

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Mai 18, 2021 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Yn absenoldeb Peredur Jenkins gadeirydd y cyfarfod gan Emlyn Roberts. Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Llion Rh. Williams, Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Peredur Jenkins
Is Gadeirydd: Meurig Ashton

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Peredur Jenkins, Meurig Ashton.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod mis Mehefin.

4. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 16, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 16, 2021

Eitem 9.a. Llythyr ateb (17/10/2021) yn gofyn am llythyr ffurfiol i benodi Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Anfonwyd y llythyr ffurfiol ar 17/3/2021.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 18, 2021

Eitem 8.g. Rhoddwyd £250 i Gymdeithas Undebol Machreth tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth. (Cofnodion Mehefin 16, 2020, eitem 6. Eitem 8.e.).

Eitem 11.a. Llythyr ateb (303/2021) ynglŷn â gwaith yn Brithgwm, Rhydymain. Mae'r llythyr yn cynnwys map sydd yn dynodi'r ceisiadau cynllunio sydd wedi ei gyflwyno o fewn y goedwig yn Brithgwm dros y blynyddoedd diwethaf. Os rydym yn ymwybodol o unrhyw waith pellach sydd wedi/yn cymryd lle o fewn y goedwig mae'r Swyddog angen gwybod. Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod lle mae'r gwaith yn cael ei gario allan wrth gyfeirio at y map.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/3/2021) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn amgáu dogfen Adnewyddu Cod Cefn Gwlad 2021 - Geiriad terfynol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (22/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (26/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dri aelod ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r wybodaeth ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Dyddiad cau am geisiadau yw 23/4/2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (25/3/2021) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd gyda rhestr rhaglen waith:

ar ffordd o fewn 30/40mya yn Brithdir yn Mai, Gorffennaf a Medi.

ar ffordd o fewn 30/40mya yn Llanfachreth yn Mai, Gorffennaf a Medi.

ar ffordd o fewn 30/40mya yn Rhydymain yn Mai, Awst a Hydref.

d. Llythyr (12/4/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd ar 7/5/2021. (Gweler Cofnodion Chwefror 16, 2021, Eitem 6.b.).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (21/4/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill / Mai.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 18, 2021

e. Llythyr (23/4/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III, Abergeirw. Bydd y ffordd ar gau yn 29/4/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonodd Cyngorwr o Cyngor Cymuned Llanelltyd lythyr (22/4/2021) i Peredur Jenkins yn dweud ei fod yn anhapus gyda bwriad BT i gau'r ffordd heb roi gwybod i fusnesau a thrigolion bydd yn cael eu heffeithio gyda'r gwaith. Anfonodd Peredur lythyr i Priffyrdd (23/4/2021) yn cytuno gyda'r sylwadau ac anfonwyd hwy'r llythyr ymlaen i Waith Stryd, Caernarfon, yr Adran sy'n delio gyda materion o'r fath. Cafwyd gwybod (26/4/2021) gan yr Adran mae'n ddyletsydd ar BT i roi arwyddion mewn lle o leiaf 10 diwrnod cyn y gwaith ac anfon llythyr i bobl i'w rhybuddio. Bydd yr Adran yn cysylltu gyda BT i roi gwybod o'u dyletswyddau. Anfonodd Peredur lythyr (6/4/2021) i'r Adran yn gofyn am fwy o wybodaeth a chafodd wybod (26/4/2021) mi fydd yn cael copi o'r llythyr sy'n cael ei anfon i BT, a'r telerau ac amodau mae rhaid i BT eu dilyn i gau ffordd.

f. Llythyr (13/5/2021) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn ymwneud â rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau i reoli pryniannau ail gartrefi. Mae gwahoddiad i ni ymuno â'r Cyngor mewn cyfarfod Zoom am 7yh ar Fai 27. Er mwyn ymuno maent angen ein cyfeiriad e-bost ac ein cyfeiriad a'u hanfon i clercyngortrefnefyn@gmail.com. Byddwn yn derbyn linc i'r cyfarfod maes o law.

Yn ardal Cyngor Tref Nefyn mae prisiau tai yn saethu i grocbris, mae tua 30% o'r stoc dai yn ail gartrefi, ac erydiad yr iaith Gymraeg. Nid ydynt yn rhagweld dyfodol i'r gymuned fel cymuned fyw wrth i genhedlaeth o bobl ifanc gael eu prisio allan o'u cymuned. Nid oes rheoliadau na chyfyngiadau i warchod cymunedau rhag gormodedd o ail gartrefi.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu â Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gwynedd; ysgrifennu at bob Cyngor Tref a Chymuned; cyfarfod â'r Prif Weinidog; cynnal protest yn Caernarfon a Nefyn; a thempled llythyr i ni ei ddefnyddio i yrru i'r Llywodraeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (25/3/2021) yn rhoi gwybod mae Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus – CCA 15: Telathrebu a Mastiau. Mae CCA yn darparu gwybodaeth fanwl bellach i gefnogi polisiau Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 Mae'r wybodaeth ar wefan yr Awdurdod – <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance/supplementary-planning-guidance-consultation> Os mae ymatebion eu hanfon i polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru cyn 6/5/2021.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 18, 2021

b. Llythyr (20/4/2021) yn rhoi gwybod bydd weminar yn cael ei gynnal ar 20/5/2021 am 7.00yh. rhwng y Parc a Chynghorau Cymuned a Thref. Y testun fydd 'Adolygu mesurau rheoli ymwelwyr yn ne'r Parc' gyda ail-agor y Parc wedi'r llwyrghlo.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (5/5/2021) yn rhoi manylion pellach a dolenni cofrestru ar gyfer y gweminarau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/3/2021) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (24/3/2021) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £600.

c. Llythyr (3/2021) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

ch. Bil (24/3/2021) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2021/22 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim taliad am y cyfnod.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau ag Adran Stadau, Cyngor Gwynedd i gael gwybod os mae'r toiledau wedi cael eu gwerthu.

d. Llythyr (8/4/2022) oddi wrth Gerallt Griffith gyda manylion cynllun hysbysfwrdd newydd i Llanfachreth. (Gweler Cofnodion Chwefror 16, 2021 Eitem 8.ch).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu barn ar y cynllun.

dd. Dogfennau (26/4/2021) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2021 i 31/5/2022. Y tâl i'w adnewyddu yw £551.83. (Tâl flwyddyn ddiwethaf oedd £544.72).

Penderfynwyd talu'r ffi.

e. Llythyr (28/4/2021) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £6,000 yn ein cyfrif ar 30/4/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

f. Llythyr (28/4/2021) oddi wrth Tŷ Gobaith. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am nawdd'.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 18, 2021

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/4/2021: £1,141.33.
Balans yn y banc ar 29/4/2021: £1,858.39. (29/4/2020: £639.50).

10. Archwilio

a. Llythyr (9/12/2020) oddi wrth BDO LLP, ein Harchwilydd Allanol, yn cynwys dogfennau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/2021:

Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad – rhoddwyd y rhybudd (Cymraeg a Saesneg) ar y 3 hysbysfwrdd ac ar y wefan ar 11/12/2020.

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad.

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad – gweler cofnodion Ionawr 19, 2021 eitem 9.a.

Ffurflen Flynyddol – y ffurflen wedi ei gwblhau.

Ni fydd BDO LLP yn cynnal ein harchwiliad yn 2020/2021.

Anfonwyd y dogfennau i'r aelodau. Bydd angen cofnodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol.

Penderfynwyd cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Flynyddol.

b. Rhoddwyd copi o 'Ddatganiad o Daliadau a wnaed i'r Aelodau 2020-2021' ar ein gwefan. Nid oedd taliadau.

c. Llythyr (30/3/2021) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynwys dogfennau Archwilio Cyfrifon 2021.

Amgau mae Ffurflen Flynyddol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a bydd angen ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30/6/2021 a'i anfon i Archwilio Cymru erbyn 1/9/2021. Mae angen cyhoeddi hysbysiad archwilio erbyn 6/8/2021 ar ein hysbysfyrddau a'n wefan.

Mi fyddant angen:

Cysoniad banc ar 31 Mawrth 2021.

Esboniad o'r amrywiadau rhwng cyfrifon 2019-20 a 2020-21 yn ffurflen flynyddol 2020-21.

Os yn berthnasol, esboniad o unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2019-20 oedd wedi eu yn cynnwys ar ffurflen flynyddol 2019-20 a chyfrifon 2019-20 a adroddwyd ar ffurflen flynyddol 2020-21.

Copi o gontract cyflogaeth y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Lle mae cyflog y Clerc/ Swyddog Ariannol Cyfrifol heb ei nodi yn y contract neu'n cael ei osod yn flynyddol, cofnodion y cyfarfod lle cafodd y cyflog ei gytuno gan y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 18, 2021

Slipiau cyflog a chofnod treth ar gyfer y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer mis Hydref 2020.

ch. Llythyr (21/4/2021) oddi wrth Archwilio Cymru yn amgau ffurflenni templed ar gyfer cysoni'r banc ac am esboniadau o amrywiannau.

d. Anfonwyd copi o'r Adroddiad Cyfrifon 2020 2021 y Cyngor i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

dd. Anfonwyd copi o'r Ffurflen Flynyddol 2021 i'r aelodau. Bydd angen i'r Cadeirydd y cyfarfod ei arwyddo.

Arwyddodd y Ffurflen gan Emlyn Roberts.

11. Adroddiad Cynghorvdd Peredur Jenkins

a. Llythyr (11/3/2021) oddi wrth Mr a Mrs Robert Hulme, Farchynys Fach i'r Senedd, Peredur Jenkins a Gethin Williams. Mae'n gofyn am arweiniad am y difrod sydd wedi cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri coed yn y goedwig wrth ei dir. Mae'r gwaith wedi achosi difrod i'w goedwig, bywyd gwyllt, waliau a llifogydd. Mae wedi gofyn i CMC am wybodaeth ar eu cynlluniau ond does dim yn dod.

Anfonwyd llythyr (11/3/2021) i Mr Dylan Williams, CNC gyda chopi o'r llythyr uchod yn gofyn iddo i edrych i mewn i'r mater gan ychwanegu does dim cyfathrebu rhwng CNC a chymuned leol.

Derbyniwyd llythyr ateb (15/3/2021) yn awgrymu cael cyfarfod gyda swyddogion CNC a chytunwyd cael cyfarfod.

Anfonwyd copi o'r llythyrau i'r aelodau.

12. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ochrau'r ffyrdd y gymuned.

Llofnod:

Dyddiad:
